Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Adroddiad Monitro ar Safonau'r Gymraeg

## Yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd rhwng 1 Awst 2021 a 31 Gorffennaf 2022.

**Cyflwyniad**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n cyflwyno dyletswydd ar Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ymhlith sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â Safonau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.

Mae'r adroddiad monitro hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau rhwng 1 Awst 2021 a 31 Gorffennaf 2022 ac mae'n gweithredu fel tystiolaeth o gyfrifoldeb y Brifysgol fel sefydliad hunanreoledig.

Yn ei Chynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2017-2024, noda'r Brifysgol mai ei gweledigaeth yw 'bod yn Brifysgol i Gymru, gydag ymrwymiad i les a threftadaeth y genedl yn greiddiol i bopeth a wnawn.' Un o'i saith gwerth craidd yw 'Cymru a'i chymeriad arbennig' trwy 'ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog Cymru.'
Ei gweledigaeth yw bod yn Brifysgol i Gymru sy'n hyrwyddo ac yn ymgorffori system addysg sector deuol sy'n addysgu dysgwyr o bob oed a chefndir, ac sy'n ysgogi datblygiad economaidd yn ein rhanbarth, ar draws Cymru a thu hwnt.

Mae'r Brifysgol yn gartref i nifer cynyddol o sefydliadau a busnesau o bwys yng Nghymru, gyda phencadlysoedd Theatr Genedlaethol Cymru, Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac S4C wedi'u lleoli ar ei champws yng Nghaerfyrddin.

Yn ystod 2021/22, parhaodd y Brifysgol â'i dyletswydd i weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg. Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, mae hyn wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau trwy ddarparu sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r Safonau i staff presennol a hefyd mewn sesiynau Hyfforddiant Corfforaethol a sesiynau Cynefino Staff. Mae Modwl Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg bellach yn ofyniad gofynnol i bob aelod o staff.

Nod y Brifysgol yw cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgu'r iaith, i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd i fagu hyder wrth ei defnyddio yn y gweithle. Mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae rhaglen o gyfleoedd ar gael i staff ddysgu Cymraeg ar bob lefel.

Mae'r adroddiad hwn yn gosod ein cydymffurfiaeth â'r Safonau ac yn cyflwyno'r data angenrheidiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Er bod gwelliannau i'w gwneud o hyd, nodwn ein bod wedi gwneud cynnydd o ran gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein gwasanaethau. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i chwarae ein rhan yn yr ymdrech genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

**Cyd-destun**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sicrhau bod i'r iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Mae hefyd yn ffordd o sefydlu fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau penodol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Bwriad y Safonau yw:

• darparu eglurder i sefydliadau am eu dyletswyddau'n ymwneud â'r Gymraeg;
• darparu eglurder i siaradwyr Cymraeg am y gwasanaethau y gallent ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg;
• sicrhau cysondeb ar draws gwasanaethau Cymraeg a gwella'u hansawdd.

Mae'r gofynion sydd wedi'u gosod ar y Brifysgol wedi'u cynnwys yma: Hysbysiad Cydymffurfio Comisiynydd y Gymraeg

Fel rhan o weithdrefnau hunanreoledig y Brifysgol, mae dolen i'w chynllun cydymffurfio hefyd wedi'i chynnwys: Cynllun Cydymffurfio 22-23.docx

**Atebolrwydd**

Dirprwy Is-Ganghellor y Brifysgol sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio cydymffurfiaeth fewnol â Safonau'r Gymraeg ar lefel arweinyddiaeth strategol. Trafodir yr holl faterion sy'n ymwneud â'r Safonau ym mhrif Bwyllgor y Gymraeg y Brifysgol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Brifysgol.

Mae Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol, adran Adnoddau Dynol ac Adran Llywodraethu Corfforaethol y Brifysgol yn cyflawni rolau allweddol o ran gweithrediad gweithredol y Safonau.

**1. Materion yn codi yn ystod y cyfnod adrodd**

Cafodd strwythur llywodraethu'r Brifysgol ar gyfer monitro'r ffordd y mae'r sefydliad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ei gryfhau'n sylweddol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn er mwyn darparu mwy o sicrwydd yn fewnol ac yn allanol.

Cafodd aelodaeth a chylch gorchwyl prif Bwyllgor y Gymraeg y Brifysgol eu hadolygu yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau bod unigolion ar y lefel briodol yn goruchwylio sicrwydd a chyfrifoldeb. Mae'r pwyllgor hwn bellach yn adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Brifysgol ac fe'i cadeirir gan Ddirprwy Is-Ganghellor y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi sicrhau perchenogaeth o'r Safonau a'r holl faterion iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ar draws y sefydliad trwy greu'r is-bwyllgorau canlynol:

- Pwyllgorau'r Gymraeg o fewn pob un o'r tair Athrofa academaidd (Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau, Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru a'r Athrofa Rheolaeth ac Iechyd)
- Rhwydwaith Iaith Gymraeg y Gwasanaethau Proffesiynol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob un o unedau gwasanaethau cymorth a chanolog y Brifysgol.

Yn ychwanegol at yr uchod, ac fel ffordd o oruchwylio a hwyluso cydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau, crëwyd Canolfan Gwasanaethau Cymraeg gan y Brifysgol yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2021 sy'n gyfrifol am y canlynol:

- hyfforddiant iaith Gymraeg i staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol (o dan frand Rhagoriaith)
- datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn strategol
- darparu adnoddau Cymraeg a chyfrwng Cymraeg i'r sector addysg yng Nghymru a thu hwnt (o dan frand Peniarth).

Mae aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth ddyddiol y Brifysgol â'r Safonau'n gweithio yn y Ganolfan ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt i bob aelod o staff o ran Safonau'r Gymraeg gan gefnogi'r disgyblaethau academaidd / unedau proffesiynol o ddydd i ddydd yn ogystal.

Yn ystod y flwyddyn, ymatebodd y Brifysgol i bwyntiau gweithredu a dderbyniwyd gan y Comisiynydd yn dilyn ei ymarfer siopwr cudd a lledaenodd ei ganfyddiadau i bob Rheolwr Uned. O ganlyniad i'r canfyddiadau, gofynnwyd i bob aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Brifysgol i gwblhau hunanasesiad o'r gwasanaethau dwyieithog sydd ar gael. Mewn ail rownd, gwahoddwyd holl aelodau staff y Brifysgol i gwblhau hunanasesiad ym mis Hydref 2022 er mwyn cael darlun mwy cynhwysfawr o ddarpariaeth a chydymffurfiaeth gyfredol y Brifysgol. Mae'r canfyddiadau wedi llywio cynllun gweithredu a byddant yn cael eu dogfennu yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

Ymrwymwyd cwmni allanol gan y Brifysgol hefyd i archwilio'r systemau a rheolaethau mewnol sydd ar waith i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Safonau. Cynhaliwyd yr ymarfer hwn ym mis Gorffennaf 2022 a nododd sicrwydd digonol ar effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol a ddefnyddiwyd gan y Brifysgol i sicrhau cydymffurfiaeth.

Yn olaf, ymrwymwyd Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr gan y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg hefyd i gynnal ymarfer siopwr dirgel ychwanegol gan ganolbwyntio'n bennaf ar ohebiaeth e-bost a gwasanaethau ffôn.

Fel rhan o'i gweithdrefnau hunanreoleiddio parhaus, mae'r Brifysgol yn wastad yn ceisio defnyddio Adroddiad Sicrwydd Blynyddol y Comisiynydd sy'n amlygu enghreifftiau o arfer da i sefydliadau.

**2. Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1-92a)**

Rhoddir gwybod yn rheolaidd i'r holl Ysgolion/Unedau am eu dyletswyddau o ran hyrwyddo'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn unol â'r safonau cyflenwi gwasanaethau. Mae canllawiau clir wedi'u lledaenu ar arfer disgwyliedig a dulliau o hyrwyddo gwasanaethau. Mae'r Brifysgol wedi creu a chyhoeddi canllawiau i staff hwyluso cydymffurfiaeth:

- Pam defnyddio'r iaith Gymraeg
- Ar y ffôn (8-29)
- Gohebiaeth (1-7)
- Dylunio, Cyhoeddi ac Arwyddion (37, 38, 43, 51-54, 65-7, 73-4, 91)
- Trefnu a chynnal cyfarfodydd (35-42)

Atgyfnerthir y rhain gan hwyluswyr/hyrwyddwyr y Gymraeg sydd wedi'u dynodi ym mhob Ysgol ac Uned ac sy'n cwrdd naill ai fel aelodau o Bwyllgorau'r Gymraeg Athrofeydd neu drwy Rwydwaith Iaith Gymraeg y Gwasanaethau Proffesiynol. Mae'r unigolion hyn hefyd yn cwrdd i drafod arfer da a syniadau ac yn gweithredu fel rhwydwaith ar Teams rhwng cyfarfodydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi a'u hyrwyddo'n briodol.

Dangoswyd gan dystiolaeth a gafwyd o ymarfer siopwr dirgel annibynnol Menter Gorllewin Sir Gâr yr ymatebwyd i 90% o ohebiaeth e-bost naill ai'n ddwyieithog neu'n Gymraeg yn unig, ac ymdriniwyd ag 84% o alwadau ffôn yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog. Caiff yr ymarfer hwn ei ailadrodd eto yn 2022/23 gyda'r elfen ychwanegol ymweliadau â'r campws.

O ganlyniad i'r uchod, mae holl staff y derbynfeydd (68, 71-2) wedi mynychu sesiynau ffurfiol sy'n cyflwyno gofynion cydymffurfiaeth ochr yn ochr â hyfforddiant ieithyddol sy'n galluogi darpariaeth briodol. Mae hyrwyddwr y Gymraeg wedi'i ddynodi yn yr Uned Ystadau a Chyfleusterau ac mae proses wedi'i rhoi ar waith ar gyfer archwiliadau mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd profiad.

Caiff staff eu hatgoffa'n rheolaidd o ofynion dyletswydd ac o ganllawiau'r Brifysgol yn y bwletin wythnosol. Cedwir yr holl ganllawiau'n ganolog ar safle Sharepoint y Brifysgol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Uned Gyfieithu'n rhan allweddol o'r seilwaith sy'n cefnogi'r iaith Gymraeg ar draws y sefydliad. Mae'r Uned wedi mabwysiadu system benodol i flaenoriaethu gwaith cyfieithu ar draws y Brifysgol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau yn y modd mwyaf effeithlon o ystyried galw a llwyth gwaith sy'n cynyddu.

Dylid nodi hefyd fod y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg wedi penodi aelod newydd o staff yn ystod y cyfnod adrodd hwn i gyfieithu yn y pwyllgorau craidd a amlinellwyd uchod. Mae hyn wedi dod ag arbenigedd amhrisiadwy i gyfieithu ar y pryd arloesol trwy Zoom a Teams i'r Brifysgol.

Cafwyd rhai datblygiadau allweddol hefyd gyda chynlluniau'r Brifysgol ar gyfer gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan (Safonau 55-63).

Ar ôl cwblhau archwiliad o ôl troed cyfryngau cymdeithasol PCYDDS, llwyddodd y tîm Marchnata i adnabod mwy na 650 o sianeli'n gysylltiedig â brand PCYDDS. Roedd sawl un o'r cyfrifon hyn yn segur ac yn cael eu defnyddio'n anaml ac roedd sawl un nad oeddent yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg. Cawsom ein hysgogi gan hyn i gychwyn y broses o ddyfeisio Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol, Cynllun Cyfryngau Cymdeithasol a Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol wedi'u diweddaru.

Nod sylfaenol y strategaeth yw sicrhau bod PCYDDS yn cyflwyno negeseuon effeithiol i'n cynulleidfaoedd targed, gan sicrhau bod gan y cynnwys ar bob sianel bwyslais sy'n cyd-fynd ag anghenion y gynulleidfa darged (y dilynwyr), yn ogystal â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Er mwyn cynorthwyo â hyn, mae'r strategaeth yn argymell y canlynol:

1. Bydd y tîm Marchnata a Chyfathrebu Corfforaethol yn gyfrifol am bob sianel a reolir yn ganolog, fersiynau Cymraeg a Saesneg ill dau. Rhaid cyflwyno'r holl gynnwys yn ddwyieithog i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

    - Byddwn yn rheoli fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer pob sianel
    - Byddwn yn postio ar y ddwy sianel ar yr un pryd, a lle nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn postio yn Gymraeg yn gyntaf
    - Bydd pob fideo yn iaith gynhenid pob sianel gydag isdeitlau cynhenid at ddibenion hygyrchedd
    - Ymatebir i bob neges yn iaith gynhenid y sianel

2. Bydd y tîm Marchnata'n datblygu canllawiau ar gyfer sefydlu sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd, gan ddarparu cyfarwyddyd arfer gorau i'r holl staff er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddion defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ac yn gosod rheolau i'w dilyn i sicrhau bod brand PCYDDS yn cael ei ddiogelu ac y bodlonir Safonau'r Gymraeg.

3. Mewn ymateb i'r archwiliad cyfryngau cymdeithasol, bydd y tîm Marchnata'n cychwyn y broses o gau cyfrifon PCYDDS nad ydynt yn weithredol mwyach.

Dechreuodd y broses o gwblhau'r camau gweithredu ym mis Tachwedd 2022 ac rydym yn bwriadu adrodd ar gynnydd erbyn mis Tachwedd 2023. Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol yn rhoi diweddariadau llawn ar gynnydd.

Ymrwymwyd adnoddau gan y Brifysgol hefyd i ddatblygu presenoldeb newydd a gwell ar y wefan yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fe wnaethom benderfynu mai cynhyrchu arweiniad yw prif bwrpas y wefan, a fydd o fudd i sawl maes gweithredu'r Brifysgol, ac yn fwyaf nodedig, recriwtio myfyrwyr, masnachol, ymchwil, gwasanaethau myfyrwyr a recriwtio staff.

Byddai pileri craidd yn seiliedig ar y canlynol yn cefnogi'r prif bwrpas hwn:
- Strategaeth gynnwys gyfannol newydd
- Ffocws sylfaenol ar brofiad y defnyddiwr
- Ffocws ar ddefnyddwyr allanol ar gyfer dylunio a chynnwys
- Strwythur gwefan sydd â ffocws strategol

- Agwedd dyfeisiau symudol yn gyntaf

Canlyniadau mesuradwy allweddol y strategaeth fyddai:

- Integreiddio llwyfannau adrodd sy’n arwain y diwydiant er mwyn olrhain llwyddiant cynhyrchu arweiniad
- Bodloni holl ofynion statudol a chydymffurfio’r Brifysgol
- Cydymffurfio’n llwyr â Rheoliadau Hygyrchedd WCAG
- Yr holl gynnwys yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg a Pholisi Iaith Gymraeg y Brifysgol

Mae’r prosiect wedi caffael partner cyflenwi ac mae wrthi’n ymrwymo rhanddeiliaid mewnol ac allanol i’r Brifysgol. Eto, darperir diweddariadau llawn mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Codir ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg trwy ddulliau amrywiol. Gofynnir i holl staff y Brifysgol gwblhau’r e-fodwl Ymwybyddiaeth Iaith. Mae’r e-fodwl yn gwrs gofynnol i’r holl staff ac mae’n un o’r cyrsiau cynefino i weithwyr newydd. Rhoddir gwybodaeth ar gyd-destun hanesyddol yr iaith Gymraeg, manteision dwyieithrwydd ac eglurhad o’r Safonau, a’r angen i gydymffurfio â’r hyn sydd wedi’i gynnwys yn y Canllawiau. Mae’r e-fodwl yn cyfeirio staff at y Canllawiau. Cafodd cynnwys y modwl ei deilwra hefyd yn 2021/22 i fyfyrwyr a’i gynnwys ym modylau Priodoleddau Graddedigion y Brifysgol.

Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, cyhoeddir fideo at sylw pob myfyriwr newydd sy’n egluro’r gefnogaeth a’r cymorth sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg. Mae’r fideo’n cynnwys gwybodaeth am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Safonau’r Gymraeg, y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg gan gynnwys Rhagoriaith a Pheniarth, y Dystysgrif Sgiliau Iaith, Canolfan S4C – Yr Egin a’r Atom yn nhref Caerfyrddin.

Crëwyd fideo ar gyfer Diwrnod Hawliau’r Gymraeg ym mis Rhagfyr 2022. Cyhoeddwyd un fideo i fyfyrwyr ar y cyfryngau cymdeithasol yn eu hatgoffa a’u hannog i ymarfer eu hawliau i dderbyn gwasanaeth cyfrwng Cymraeg. Yn unol â Diwrnod Hawliau’r Comisiynydd, dyluniwyd neges Diwrnod Hawliau’r Gymraeg â baner ar hafan mewnrwyd y Brifysgol i ddenu sylw myfyrwyr a staff.

Darparwyd cyngor yn rheolaidd hefyd i unedau proffesiynol amrywiol fel yr Uned Gyllid, yr Uned Gwasanaethau Myfyrwyr, yr Uned Farchnata, yr Uned Ymchwil a Datblygu, y Gofrestrfa ac ardaloedd Derbynfa’r campysau amrywiol. Roedd y cyngor hwn yn amrywio o ymateb i ymholiadau arferol a dderbyniwyd i gyfarfodydd a/neu gyflwyniadau mwy ffurfiol yn ôl y gofyn.

**3. Safonau Llunio Polisi (Safonau 94-104)**

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae Rheoliadau Ariannol y Brifysgol wedi ymgorffori gofynion Safonau’r Gymraeg wrth ddyfarnu grantiau / cymorth ariannol.

Yn ogystal, wrth gyflwyno papurau i bwyllgorau, mae pob rheolwr yn llenwi tudalen glawr sy’n gofyn iddynt ystyried effeithiau’r papur ar yr iaith Gymraeg.

**4. Safonau Gweithredu (Safonau 105-153)**

Cyhoeddwyd Polisi Defnydd Mewnol y Gymraeg ar fewnrwyd y Brifysgol (105-118). Hyrwyddwyd y Polisi ymhlith staff trwy dynnu sylw ato yn y Bwletin Staff wythnosol.

Mae’r Brifysgol yn ymroddedig i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg trwy gynllunio a hyfforddi ei gweithlu (134-144a) a chaiff cyrsiau eu cynnig i staff ar lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Cynigir cyrsiau hunanastudio ar-lein â chymorth tiwtor yn ogystal â chyrsiau a addysgir gan diwtor gyda gwaith cyfeirio.

Rhoddir ystyriaeth ddyledus i’r iaith Gymraeg fel rhan o ganllawiau recriwtio a phenodi’r Brifysgol (145-149). Mae pob rheolwr yn cwblhau asesiad gofyniad ieithyddol ar gyfer pob swydd wag gyda’r bwriad o sicrhau fod gallu’r Brifysgol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar draws pob uned yn flaenoriaeth. Mae pob aelod o staff yn cael cynnig cyfle i ddysgu Cymraeg neu uwchsgilio eu lefel hyfedredd bresennol.

Mae Adnoddau Dynol yn defnyddio system ar-lein i recriwtio ac mae’n rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen ar-lein. Mae’r system yn gwbl ddwyieithog ac felly gall pob ymgeisydd ddewis p’un ai i lenwi’r ffurflen yn Gymraeg ai peidio.

**5. Cwynion (163-177)**

Ni dderbyniodd y Brifysgol gwyn ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd.

**6. Sgiliau Cymraeg y rhai a gyflogid gan y Brifysgol ddiwedd Gorffennaf 2022**

**(i) Canran y staff academaidd a oedd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**

| | **% Gallu addysgu** | **% Methu addysgu** | **% Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| **Staff Academaidd 2022** | 12.6% (46) | 65.8% (241) | 21.6% (79) |
| **Staff Academaidd 2021** | 14.8% (48) | 63% (205) | 22.2% (72) |
| **Staff Academaidd 2020** | 16% (51) | 62.7% (200) | 21.3% (68) |

**(ii) Canran y staff academaidd a leolwyd ar gampysau Cymru a oedd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**

| | **% Gallu addysgu** | **% Methu addysgu** | **% Ddim yn gwybod** |
|---|---|---|---|
| **Staff Academaidd 2022** | 13.6% (46) | 64.3% (218) | 22.1% (75) |

### (iii) Canran yr holl staff (cymorth a phroffesiynol) a oedd yn gallu siarad Cymraeg

| | **Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl** | **Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl** | **Ddim yn gallu siarad Cymraeg** | **Anhysbys** |
|---|---|---|---|---|
| **Canran 21/22** | 19.6% (247) | 26.1% (330) | 41.2% (520) | 13.1% (165) |
| **Canran 20/21** | 21.5% (227) | 23.8% (252) | 40.8% (431) | 13.9% (147) |
| **Canran 19/20** | 21.9% (232) | 23.0% (244) | 40.1% (425) | 15.1% (160) |

### (iv) Canran yr holl staff (cymorth a phroffesiynol) a leolwyd ar gampysau Cymraeg a oedd yn gallu siarad Cymraeg

| | **Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl** | **Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl** | **Ddim yn gallu siarad Cymraeg** | **Anhysbys** |
|---|---|---|---|---|
| **Canran 21/22** | 21.3% (246) | 28.4% (328) | 37.3% (431) | 13.0% (150) |
| **Canran 20/21** | 22.8% (225) | 25.5% (252) | 37.6% (372) | 14.2% (140) |
| **Canran 19/20** | 22.9% (230) | 24.3% (244) | 37.6% (378) | 15.2% (153) |

Mae tabl (iv) yn dangos bod 49.7% o staff ar ein campysau yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, nail ai yn rhugl neu heb fod yn rhugl.

**Nifer a chanran y staff a fynychodd hyfforddiant Cymraeg**

Cwblhaodd 15 aelod o staff hyfforddiant yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22 i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg ac fe wnaeth 2 ohonynt sefyll arholiad ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

**Cyrsiau/hyfforddiant a ddarparwyd trwy gyfrwng y Gymraeg i staff**

| Teitl | Niferoedd | | |
|---|---|---|---|
| | Staff academaidd | Gwasanaethau Proffesiynol | Cyfanswm |
| Modwl e-Ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 3 | 8 | 11 (3.4%) |
| Modwl e-Ddysgu Deall Iechyd a Diogelwch | 1 | 10 | 11 (2.8%) |
| Modwl e-Ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg | 7 | 16 | 23 (6.1%) |
| Hyfforddiant Cymrodoriaeth AAU | | | 4 (11.4%) |
| Lles Myfyrwyr: Fyfyrwyr, sut ydych chi'n teimlo heddi? Lles o bell | Ni chofnodwyd nifer y mynychwyr | | |

Yn y flwyddyn academaidd hon, bydd tri modiwl e-ddysgu pellach ar gael i staff yn ddwyieithog. Teitlau'r rhain yw Cydraddoldeb Hil, Hanfodion Diogelu a Chefnogi Iechyd Meddwl a Lles Myfyrwyr.

**Swyddi newydd a gwag**

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd rhwng 1 Awst 2021 a 31 Gorffennaf 2022 gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol ynghyd â chanran y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

**(i) Nifer o swyddi gwag a hysbysebwyd ar draws y Brifysgol**

| **Blwyddyn** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd lle nad oedd y Gymraeg yn ofynnol** | **% y siaradwyr Cymraeg a benodwyd i swyddi gwag gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol** |
|---|---|---|---|---|---|
| **21/22** | 72.7% (344) | 60% (284) | 12.68% (60) | 27.27% (129)** | 100%* |
| **20/21** | 76.9% (207) | 58.7% (158) | 18.2% (49) | 23% (62)** | 100%* |
| **19/20** | 100% (106) | 78.3% (83) | 21.6% (23) | 0% (0) | 100%* |

**(ii) Nifer o swyddi gwag a hysbysebwyd ar ein campysau yng Nghymru**

| **Blwyddyn** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol** | **Nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd lle nad oedd y Gymraeg yn ofynnol** | **% y siaradwyr Cymraeg a benodwyd i swyddi gwag gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol** |
|---|---|---|---|---|---|
| 21/22 | 100% (344) | 82.56% (284) | 17.44% (60) | 0 | 100%* |

Yn ystod 21/22, hysbysebwyd 82.56% o swyddi gwag ar ein campysau yng Nghymru gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol a hysbysebwyd 17.44% gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol.

*100% lle'r oedd y Brifysgol yn gallu llenwi'r swydd. Mewn rhai achosion, nid oedd y Brifysgol yn gallu llenwi'r swydd oherwydd prinder ymgeiswyr yn bodloni'r gofynion sgiliau iaith Gymraeg hanfodol.

**Nid yw'r swyddi gwag hyn wedi'u lleoli yng Nghymru (maen nhw wedi'u lleoli ar ein campysau yn Llundain a Birmingham lle nad oes gofyn am sgiliau Cymraeg).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am yr adroddiad monitro hwn, anfonwch e-bost at y Brifysgol ar [iaithgymraeg@pcydds.ac.uk](mailto:iaithgymraeg@pcydds.ac.uk)